



MUDIAD YSGOLION MEITHRIN



Siarad Dwy Iaith

Y Camau Cyntaf at Ddwyieithrwydd
The First Steps to Bilingualism

www.mym.co.uk



Mae'r llyfryn hwn yn seiliedig ar gyhoeddiad cynharach i Mudiad Ysgolion Meithrin gan Siân Wyn Siencyn.

Byddem yn hoffi diolch yn fawr i Siân Wyn Siencyn, Ysgol Addysg y Blynyddoedd Cynnar, Coleg y Drindod, Caerfyrddin am ei pharodrodd yn caniatáu i ni ddefnyddio a diweddarau ei deunydd gwreiddiol.

Diolch hefyd i Gwmni Iaith (www.iaith.eu) am y diweddariad hwn.

Cynhyrchwyd y llyfryn hwn dan nawdd cynllun CWLWM, partneriaeth sy'n cynnwys prif sefydliadau gofal plant Cymru. Mae Mudiad Ysgolion Meithrin yn falch o fod wedi elwa o'r cynllun trwy dderbyn cymorth arian Amcan 1 yr Undeb Ewropeaidd dan faner EQUAL a chymorth gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2008

This booklet is based on an earlier publication for Mudiad Ysgolion Meithrin by Siân Wyn Siencyn.

We would very much like to thank Siân Wyn Siencyn, School of Early Years' Education, Trinity College, Carmarthen for her readiness in allowing us to use and update her original material.

And thanks to Cwmni Iaith (www.iaith.eu) for updating the material.

This booklet has been produced as part of the CWLWM project, a partnership of key national childcare organisations in Wales. Mudiad Ysgolion Meithrin is pleased to have benefited from Objective 1 funding through the European Union and the EQUAL initiative and acknowledges the support given by the Welsh Assembly Government.

Publication date: January 2008



Beth yw manteision dwyieithrwydd?

O'i ddiffinio'n syml iawn, mae dwyieithrwydd yn golygu'r gallu i ddefnyddio dwy iaith. Ac mae ymchwil yn Ewrop a Gogledd America wedi dangos ers blynyddoedd bod plant sy'n medru siarad dwy iaith ar eu hennill mewn sawl ffordd. Dyma rai o'r manteision:

- Mae plant dwyieithog ar y blaen wrth ddysgu darllen. Mae hynny'n digwydd am eu bod nhw'n rhoi llai o bwys ar sain geiriau ac yn rhoi mwy o sylw i'w hystyr. Mae'r gallu i wahanu ystyr a sain yn bwysig wrth helpu plant i fedru defnyddio iaith i feddwl.

What's so good about bilingualism?

At its simplest, being bilingual means being able to use two languages. And, for several years, research in Europe and North America has shown that children who are able to speak two languages have lots of advantages. These are just a few:

- Bilingual children have a head start when learning to read. This happens because they are less concerned with the sound of words and more focused on their meaning. The ability to separate meaning from sound is important in helping children use language as a thinking tool.



- Mae siarad mwy nag un iaith yn hybu sgiliau meddwl plant mewn ffyrdd eraill hefyd. O gael mwy nag un gair am wrthrych neu syniad arbennig, hwyrach y bydd gan blant fwy nag un ystyr hefyd; bydd hynny'n ehangu'r cysylltiadau y maen nhw'n gallu eu ffurfio, a bydd yn golygu eu bod nhw'n gallu meddwl yn fwy hyblyg.
- Mae bod yn ddwyieithog yn helpu plant i dyfu'n fwy ymwybodol o iaith a sut y mae iaith yn gweithio – yr hyn y mae'r arbenigwyr yn ei alw yn *metalinguistic awareness*. Yn ystod y blynyddoedd cynnar mae hynny'n helpu plant i ddarllen. Ac yn nes ymlaen gall fod yn help i ddysgu ieithoedd eraill. Bydd plentyn sy'n siarad Cymraeg, er enghraifft, yn gwybod bod rhai enwau'n wrywaidd a bod enwau eraill yn fenywaidd. Gall hynny wneud bywyd yn haws wrth ddysgu ieithoedd tebyg i Ffrangeg a Sbaeneg lle mae'r un rheol ar waith.
- Speaking more than one language helps children's thinking skills in other ways too. Having more than one word for a particular object or idea may give children more than one meaning; this broadens the associations they are able to form and makes their thinking more flexible.
- Being bilingual helps children become more aware of language itself and how it works - what the experts call *metalinguistic awareness*. In the early years, this also helps children's reading. Later on, it may make it easier to pick up other languages. A child speaking Welsh, for example, will know that some nouns are masculine and others feminine. This may make life easier when learning languages such as French or Spanish where the same rule applies.

Beth sydd gan rieni i'w ddweud

"Mae'n hollol bosib i blentyn bach ddysgu dwy neu hyd yn oed tair o ieithoedd, a 'dyw pedair ddim yn amhosib. Yn Ewrop, mae nifer fawr o blant bach yn dysgu pedair iaith heb fawr o drafferth."

Deborah Ruuskanen, Athro Ieithyddiaeth Saesneg, Y Ffindir, a mam i dri phlentyn bach dwyieithog.

"Mae'n ffantastig, y ffordd y maen nhw'n gallu symud o un iaith i'r llall. Mae'n digwydd yn naturiol ac maen nhw wrth eu bodd."

Mam yn un o gylchlythyrau Twf yn siarad am ei dau blentyn bach dwyieithog sy'n rhugl yn Gymraeg a Saesneg.

Mae'r neges ar draws Ewrop yn un bositif; mae dwyieithrwydd o fewn cyrraedd yn hawdd i blant bach. Mae'n broses normal a chyffrous. Ac yma yng Nghymru, mae'r cyfle i fod yn ddwyieithog ar steplen ein drws.

What parents say

"It is entirely possible to teach an infant two, or even three languages and four is not unheard of. In Europe, a great many toddlers learn four languages with little or no difficulty."

Deborah Ruuskanen, Professor of English Linguistics, Finland, and mother of three bilingual children.

"It's fantastic, the way they're able to switch from one language to another. It happens naturally and they love it."

Parent quoted in Twf newsletter, speaking about her two young bilingual children, fluent in Welsh and English.

The message right across Europe is positive; bilingualism is seen as something which is easily within the grasp of young children. It's normal and vibrant. Here in Wales the opportunity to become bilingual is right on our doorstep.







Beth sydd gan y llunwyr polisi i'w ddweud

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo mewn modd pendant iawn i ddwyieithrwydd. Yn *laith Pawb* - ei dogfen bolisi ar yr iaith Gymraeg - ac yn y Cyfnod Sylfaen newydd ar gyfer plant 3 - 7 oed yng Nghymru, un o'r egwyddorion allweddol yw y dylai pob plentyn yng Nghymru gael profiad o'r Gymraeg a chyfle i fod yn ddwyieithog.

What the policy makers say

Over the last few years, the Welsh Assembly Government has made a firm commitment to bilingualism. In *laith Pawb*, its policy document on the Welsh language, and in the new Foundation Phase for 3 – 7 year olds in Wales, one of the key principles is that all children in Wales should have experience of the Welsh language and an opportunity to be bilingual.

Pryd yw'r adeg orau i ddechrau?

Cynta i gyd, gorau i gyd! Yn ei lyfr *A Parents' and Teachers' Guide to Bilingualism*, mae'r Athro Colin Baker yn crynhoi'r syniadau mwyaf diweddar:

When's the best time to start?

The sooner the better! In his book *A Parents' and Teachers' Guide to Bilingualism*, Professor Colin Baker sums up the current thinking:

“ Young children pick up languages so easily. Language is acquired unwittingly, subconsciously ... Young children learn languages as naturally as they learn to run and jump, paint and play. Young children are not worried by their language mistakes, nor about not finding the exact word. They are only interested in getting their message across and receiving needed information. ”

Mae plant bach yn dysgu iaith mewn ffordd wahanol iawn i blant hŷn ac oedolion. Mae Colin Baker yn llygad ei le wrth ddweud:

Young children learn language in a very different way from older children and adults. Colin Baker puts his finger on this by saying that:

“ Language among young children is caught rather than taught. The process is not learning but acquisition ... ”







Nid **dysgu** iaith y mae plant bach yn ei wneud, ond **caffael** iaith. Ac mae 'na fyd o wahaniaeth rhwng y ddau beth. Wrth ddysgu iaith, gall oedolion deimlo'n hunanymwybodol. Hwyrach y byddan nhw'n awyddus i wybod sut y mae pethau'n gweithio mewn iaith arall; beth yw'r rheolau gramadeg; pam y mae llythrennau cyntaf rhai geiriau'n treiglo yn Gymraeg ar ôl 'y' neu 'ei', er enghraifft. 'Dyw plant bach byth yn gofyn cwestiynau o'r fath. Maen nhw'n bwrw ati'n syth!

Mae Noam Chomsky, yr ieithydd Americanaidd, yn crynhoi'r cyfan trwy awgrymu bod gan blant bach yr hyn yr oedd e'n ei alw yn *Language Acquisition Device* – rhyw fath o raglen arbennig ar gyfer dysgu iaith. Ac yn ôl Siân Wyn Siencyn, sy'n arbenigo ym maes y blynyddoedd cynnar:

"Mae'r math yma o raglennu genetig ar gyfer ieithoedd, ynghyd â natur gymdeithasol a chwilfrydedd bywiog am y byd a'i bethe, yn golygu bod plant bach yn sêr naturiol wrth ddysgu iaith."

Young children do not **learn** language, they **acquire** it. And there's a big difference. Adult learners may feel self-conscious and may want to know how things work in another language; what the rules of grammar are; why in Welsh the first letter of some words changes after 'y' or 'ei', for example. Young children never ask that kind of thing. They just get on with it!

The American linguist, Noam Chomsky, summed this up by suggesting that young children have what he called a *Language Acquisition Device*, making them especially programmed to learn language. And according to early years' expert Siân Wyn Siencyn:

"This sort of genetic programme for languages, together with a sociable nature and active curiosity about the world around her, make the child a star language pupil."

Sut y mae plant yn tyfu'n ddwyieithog?

Weithiau, bydd plant bach yn dysgu'r ddwy iaith ar yr un pryd – yn **gyfamserol**. Er enghraifft, hwyrach y bydd un rhiant yn siarad Cymraeg â'r plentyn a'r rhiant arall yn siarad Saesneg. Mae'r ddwy iaith yn cael eu dysgu ochr yn ochr â'i gilydd.

Bydd plant eraill yn caffael un iaith yn gyntaf a'r llall ychydig yn hwyrach – yn **olynol**. Er enghraifft, hwyrach y byddan nhw'n siarad Saesneg gartref ac yn dysgu Cymraeg yn y cylch meithrin. Heb os nac onibai, y **Dull Trochi** yw'r ffordd orau o gaffael y Gymraeg iddyn nhw. Disgrifiwyd y dull hwnnw gyntaf yn yr 1950au gan Jac L. Williams, Athro Addysg yn Aberystwyth. Yna, yn yr 1960au, mabwysiadwyd y Dull Trochi gan y gyfundrefn addysg yng Nghanada.

Golyga'r Dull Trochi bod plant yn cael eu hamgylchynu'n gyfan gwbl gan yr ail iaith neu'r iaith darged, gan gaffael yr iaith honno bron heb sylweddoli wrth iddyn nhw chwarae, canu, adrodd straeon a gwneud pob math o weithgareddau hwyliog eraill yn y cylch meithrin.

How do children become bilingual?

Young children sometimes learn both languages at the same time, **simultaneously**. For example, one parent may speak Welsh with the child and the other English. Both languages are learned alongside one another.

Other children may acquire one language first and the other a little later on, or **sequentially**. For example, they may speak English at home and learn Welsh in the *cylch meithrin*. And for them, there is little doubt that **Y Dull Trochi** offers the best way of acquiring Welsh. This method was first described in the 1950s by Jac L. Williams, Professor of Education at Aberystwyth. It was later adopted during the 1960s by the Canadian education system and came to be known as the Immersion Method.

What it means is that the child is surrounded completely by the second or target language and acquires it almost without realising in the process of playing, singing, story telling and doing all kinds of fun activities in the *cylch meithrin*.







Pa gamau y mae plant yn eu dilyn?

Wrth ddechrau yn y cylch meithrin gyda'r nesaf peth i ddim Cymraeg, dyma rai o'r camau posibl y bydd plant yn eu dilyn wrth iddyn nhw ddechrau clywed y Gymraeg, dod i arfer â hi a pharatoi i'w defnyddio.

- 1 Cam 1** – Bydd plant yn aml yn dechrau 'defnyddio' Cymraeg mewn ffordd **oddefol**. Hynny yw, hwyrach y byddan nhw'n dechrau dangos yn raddol yn eu hymateb i chi eu bod nhw wedi deall beth sy'n cael ei ddweud wrthyn nhw yn eu hiaith newydd. Er enghraifft:

“ **Oedolyn:** *Pa liw yw'r car yma?*
Plentyn: *It's a red one.*
Oedolyn: *Oes car coch gyda ti?*
Plentyn: *Yes – here it is.* ”

What steps do children follow?

When they enter the *cylch meithrin* with little or no Welsh, these are a few of the steps which children may take as they start hearing and getting used to the Welsh language, and as they get ready to start using it.

- 1 Step 1** – Children will often start 'using' Welsh in a **passive** way. That is, they may slowly start indicating in their response to you that they have understood what is being said to them in their new language. For example,

“ **Adult:** *Pa liw yw'r car yma?*
Child: *It's a red one.*
Adult: *Oes car coch gyda ti?*
Child: *Yes – here it is.* ”

Mae'r rhan fwyaf o bobl yn deall iaith cyn medru ei siarad, a bydd babanod yn ymateb i gêmâu a chwestiynau cyn medru yngan gair. Wrth gaffael ail iaith, bydd angen amser ar blant i symud drwy'r cam hwn er mwyn ymglyfarwyddo â'r iaith newydd a'i harchwilio a'i deall yn eu hamser eu hunain.

2 **Cam 2** – Hwyrach y bydd plant yn defnyddio'r Gymraeg ar lafar am y tro cyntaf mewn ffordd **anuniongyrchol** neu **ddefodol**. Hwyrach y byddan nhw'n dechrau defnyddio'r Gymraeg mewn caneuon a rhigymau neu mewn sylwebaeth wrth chwarae â doliau neu bypedau. Nid defnydd personol o iaith yw hwn – nid yw'r iaith yn cael ei defnyddio i fynegi teimladau neu ofyn am wybodaeth. Mae angen ymarfer siarad iaith fel hyn ar blant cyn y byddan nhw'n barod i'w defnyddio i fynegi pethau amdany'n nhw'u hunain.

Most human beings understand language before being able to speak. Babies respond to games and questions before they are able to talk. And when acquiring a second language, children need time to move through this stage in order to attune themselves, explore and absorb language at their own pace.

2 **Step 2** - Their first use of spoken Welsh may be in a **non-direct** or **ritualistic** way. Children may start using Welsh in songs and rhymes or as a running commentary when playing with dolls or puppets. This is not personalised use of language – language is not being used to express emotion or ask for information. It is as if children need to first practise language in this kind of way before being ready to use it to express things about themselves.







3 **Cam 3** – Bydd y cam hwn yn digwydd pan fydd plant yn dechrau gwneud datganiadau **digymell** neu **bersonol**. Pan fydd plant yn cymryd y camau cyntaf sigledig hyn tuag at ddefnyddio ail iaith, byddan nhw'n aml yn creu datganiadau hyderus, creadigol gan ddod â'r ddwy iaith ynghyd. Er enghraifft,

3 **Step 3** – This happens when children start making **spontaneous** or **personalised** statements. And when children take these first shaky steps towards second language use, they often produce bold, creative statements, bringing both languages together. For example,

“ *My daddy's reado'r papur.
It was my granny. She knito fe i fi.
It's a little dog and he's jumbo.* ”

Mae'r defnydd hwn o iaith yn destun dathlu! Pan fo'n digwydd, er ei fod hwyrach yn dân ar groen oedolion, mae'n dangos bod plant bach yn gwneud camau breision yn y broses o gaffael ail iaith. Maen nhw'n fodlon mentro a rhoi cynnig arni. Does dim diben cywiro, a gall gwneud hynny lesteirio'r dysgu a'r arbrofi. Mae camgymeriadau yn arwydd iach bod dysgu go iawn yn digwydd. Gwaith yr oedolyn yw annog, nid gweld bai.

Gydag amser, bydd y plentyn yn dysgu gwahanu'r ddwy iaith yn ara' bach a bydd y cymysgu yn peidio.

This use of language is something to celebrate! When it happens, irritating as it may sometimes be for adults, it shows that children are making real strides in their second language processes. They are willing to take risks and have a go. Correcting serves no purpose and may inhibit learning and experimentation. Errors are a healthy symptom that real learning is taking place. The role of the adult is to encourage and not find fault.

Given time, the child will slowly learn to separate both languages and the mixing will decline.

Sut y gall staff y cylch meithrin helpu?

Mae gan yr oedolyn ran bwysig iawn i'w chwarae yn y **Dull Trochi**. Fel y mae'r term yn awgrymu, bydd plant ar eu hennill yn fawr wrth glywed y Gymraeg yn gyson *ymhob* gweithgaredd. Er enghraifft,

Mae grŵp bach o blant yn chwarae â cheir. Mae Jane yn ymuno â nhw yn dawel bach ac yn cynnig ambell sylw ac awgrym. Mae'n dweud:

*Ble mae'r car coch? Ydi'r car gyda ti, Jac? Wyt ti am roi'r car coch i Ellen?
Da iawn. Edrych, Ellen, mae'r car glas yn mynd brm, brm ...*

Mae'r oedolyn yn helpu Ellen trwy ddefnyddio'r hyn y mae'r arbenigwyr yn ei alw yn *homophonous diamorphs*! Hynny yw, geiriau sy'n swnio'r un fath ac sydd â'r un ystyr mewn dwy iaith. Er enghraifft, *lori / lorry; car / car; doli / dolly; bloc / block*. Wrth ddefnyddio'r rhain mae'n cynnig cliwiau i Ellen. Mae hefyd yn pwyntio ac yn ystumio, yn dangos pethau, yn ailadrodd ac yn defnyddio llais mawr - yn union fel y byddwn ni'n ei wneud gyda phob plentyn bach.

How can staff in the *cylch meithrin* help?

In ***Y Dull Trochi*** the role of the adult is very important. As the term suggests, children benefit greatly from hearing Welsh consistently in *all* their activities. For example,

A small group of children is playing with cars. Jane joins them and discreetly offers comments and suggestions. She says,

The adult is helping Ellen by using what the experts call *homophonous diamorphs*! That is, words that sound the same and have the same meaning in two languages. For example, *lori / lorry; car / car; doli / dolly; bloc / block*. By using these, she is offering Ellen language clues. She is also pointing and gesturing, displaying objects, repeating and using an exaggerated tone of voice – just as we do with all children.







Mae Lucy a Jamie yn chwarae siop. Mae Jane yn ymuno â nhw.

Lucy and Jamie are playing in the shop. Jane joins them:

“

Jane: *Bore da, Lucy.*

Lucy: *Hello, what do you want?*

Jane: *Rwy eisie bananas plis.*

Lucy: *Bananas?*

Jane: *Ie. Bananas. Rwy eisie bananas os gwelwch yn dda.*

Lucy: *She wants bananas.*

Jamie: *How many bananas?*

Jane: *Pedwar banana, plis.*

”

Gall sgwrs o'r fath bara'n hir. Mae'n caniatáu i Lucy a Jamie glywed y Gymraeg a pharhau i chwarae heb fod iaith yn tarfu o gwbl ar y busnes o redeg siop!

This kind of chat can go on for a long time. It allows Lucy and Jamie to hear Welsh and to continue their play without language interfering with the business of running a shop in any way!

Sut y gall y staff helpu rhieni di-Gymraeg?

Dyma rai pethau y gallwch chi eu gwneud.
Er enghraifft:

- trefnu sesiynau *Cymraeg i'r Teulu* i grwpiau
- paratoi copïau o eiriau ac ymadroddion syml y gall rhieni eu defnyddio gartref – adeg pryd bwyd, adeg bath, adeg mynd i'r gwely
- cynnig cyfleoedd i rieni weld llyfrau a chryno-ddisgiau Cymraeg
- gofyn am gefnogaeth a chyngor gan rieni sy'n siarad Cymraeg

How can staff help parents who don't speak Welsh?

Here are a few things you can do.
For example,

- arrange group sessions of *Welsh for the Family*
- prepare copies of simple words and phrases which parents can use at home – at mealtimes, bath-time, bed-time
- offer opportunities for parents to see copies of Welsh books and CDs
- ask Welsh-speaking parents to offer support and advice







Y gair olaf: cyngor cydweithwyr

"Mae'n demtasiwn cyfieithu popeth i'r Saesneg pan nad yw plant yn deall. Ond peidiwch! Defnyddiwch eich **corff** – eich wyneb a'ch dwylo a 'stumiau mawr. Dyma'r ffordd orau o helpu plant i ddeall."

The last word: tips from colleagues

"There's a temptation to translate things into English when children don't understand. But don't! Use your **body** – your face, your hands and really big gestures. This is the best way to help children understand."

"Mae **canu** yn ffordd wych o gyflwyno iaith. Rap, rhythm, odl – maen nhw i gyd yn helpu plant i fwynhau canu a bydd y plant yn dysgu iaith wrth fynd."


"**Singing** is a brilliant way of introducing language. Rap, rhythm and rhyme all help children enjoy singing and they pick up language as they go."

"Gwnewch yn fawr o'r **drefn ddyddiol** – *amser cofrestru, amser stori, amser bwyta*. Byddwch yn defnyddio'r un patrymau bob dydd, a gall canu helpu yn y fan hyn eto, er enghraifft, *Dewch i eistedd ar y mat, ar y mat ...*"

"Take advantage of **everyday routines** – *amser cofrestru, amser stori, amser bwyta*. You use the same patterns every day and singing can help here too, for example, *Dewch i eistedd ar y mat, ar y mat ...*"

"Y peth pwysica i gyd yw peidio â gwneud yr iaith yn broblem. Mae'n ffordd o gyfathrebu – yn rhywbeth i'w **fwynhau**."

"The most important thing of all is not to make an issue of language. It's a way of communicating - something to be **enjoyed**."





MUDIAD
YSGOLION
MEITHRIN



YR UNDEB
EWROPEAIDD
EQUAL
EUROPEAN
UNION
EQUAL



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

